**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod:**

**Ystyried cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal o safbwynt croestoriadol**

**Noddwyd gan Siân Gwenllian AS**
**10 Rhagfyr 2021**
**Zoom, 15:30 – 16:50**

***Yn bresennol:***
*Sian Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Natasha Asghar AS*
*Sioned Williams AS*
*Farah Hussain, Prifysgol Queen Mary, Llundain (Siaradwr)*
*Mona Lena Krook, Prifysgol Rutgers (Siaradwr)*
*Bessie Johnson, Bawso*
*Hade Turkmen, Chwarae Teg*
*Debbie Shaffer, FTWW*
*Jordan Brewer, Cymorth i Fenywod Cymru.*
*Jen Ramsay, Swyddfa Paul Davies AS*
*Nancy Lidubwi, Bawso*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Rhian Connick, NFWI*
*Rhian Davies, Anabledd Cymru*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Jane Fenton-May,* Menywod yn Ewrop (Cymru)
*Catherine Fookes, WEN Cymru*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Delyth Jewell AS*
*Sarah Murphy AS*
*Peredur Owen Griffiths AS*
*Sarah Childs, Prifysgol Llundain*
*Laura McAllister, Prifysgol Caerdydd*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Jess Blair, ERS Cymru*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniad** - *Cadeirydd*<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb a dywedodd mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried gwahaniaethu croestoriadol a'i rôl yng nghynrychiolaeth wleidyddol menywod.<br><br>Dywedodd fod y Cytundeb Cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llafur Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cwotâu rhywedd yn y gyfraith. Roedd hyn yn llwyddiant mawr i'r Grŵp Trawsbleidiol ond roedd yn bwysig parhau i roi sylw i amrywiaeth a rôl mathau croestoriadol o wahaniaethu. |
| **2** | **Cyflwyniad i groestoriadedd ac astudiaeth achos o'r DU -** Farah Hussain, Ymchwilydd PhD ym Mhrifysgol Queen Mary Llundain a Chynghorydd Lleol<br><br>Rhoddodd Farah Hussain grynodeb o hanes y cysyniad o groestoriadedd, gan gynnwys sut y dechreuodd yn yr Unol Daleithiau a'r modd y cafodd ei gymhwyso wedyn yng nghyd-destun Ewrop. Roedd y cysyniad yn awgrymu bod pobl sy'n |

| | |
|---|---|
| | wynebu gwahaniaethu croestoriadol, fel menywod duon, yn wynebu “traffig o bob cyfeiriad” oherwydd yn wynebu gwahaniaethu ar sail rhywedd ac ar sail hil. Cyfeiriwyd at hyn weithiau fel gwahaniaethu deublyg (*double jeopardy*). Mae gwahaniaethu croestoriadol hefyd yn digwydd ar ffurf benodol yn aml - nid yn unig roedd merched duon yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu bod yn ddu a hefyd yn ferched, ond roeddent hefyd yn wynebu gwahaniaethu fel *merched duon* yn benodol<br><br>Yng nghyd-destun gwleidyddiaeth, roedd weithiau'n bosibl wynebu manteision lluosog yn ogystal â gwahaniaethu deublyg. Er enghraifft, yng nghyd-destun cwotâu rhywedd a lleiafrifoedd ethnig, gellid rhoi blaenoriaeth i ferched o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wrth ddewis ymgeiswyr oherwydd eu bod wedi “ticio dau flwch ar unwaith”. Yn ogystal, mae'r syniad o *croestoriadedd strategol* yn awgrymu y gallai pobl sy’n wynebu gwahaniaethu croestoriadol ddefnyddio eu sefyllfa i fod yn gynrychiolwyr gwell oherwydd eu bod yn deall yn well yr heriau y mae grwpiau gwahanol yn eu hwynebu.<br><br>Yna aeth Farah Hussain ati i amlinellu ei hastudiaeth achos ar brofiad merched Mwslimaidd yn y blaid Lafur. Roedd merched Mwslimaidd wedi dweud eu bod yn cael eu hatal rhag sefyll fel cynghorwyr lleol oherwydd gwahaniaethu o fewn eu cymunedau eu hunain mewn rhwydweithiau *biraderi*, ond roedd y blaid Lafur wedi gollwng yr achos. Roedd yn bwysig deall y sefyllfaoedd a oedd yn arwain at hyn, a dangosodd yr astudiaeth achos fod cyd-destun yn allweddol i ddeall y manteision/anfanteision niferus sy’n wynebu grwpiau penodol.<br><br>Daeth y siaradwr i’r casgliad ein bod yn datblygu polisïau gwell wrth ystyried croestoriadedd. Pe bai polisïau'n ystyried yr effaith groestoriadol a phe baent o fudd i’r rhai sy’n wynebu anfanteision lluosog, mae'n debyg y byddent o fudd i bawb. |
| **3** | **Effaith drawstoriadol cwotâu -** Mona Lena Crook, Athro Gwyddor Gwleidyddol ym Mhrifysgol Rutgers<br><br>Rhoddodd Mona Lena Krook drosolwg byr o gwotâu rhywedd ar draws y byd. Roedd mwy na 130 o wledydd yn defnyddio rhyw fath o gwota rhywedd heddiw, ac roedd rhai tueddiadau diddorol yn dod i’r amlwg o ran y mathau o gwotâu a ddefnyddir mewn gwahanol rannau o’r byd (cwota deddfwriaethol, seddi neilltuedig neu gwotâu gwirfoddol o fewn pleidiau). Roedd y cynnydd mwyaf yng nghynrychiolaeth merched i’w weld ar gyfandir America, lle’r oedd cwotâu deddfwriaethol yn gyffredin.<br><br>Yn ogystal â chwotâu rhywedd, roedd llawer o wledydd yn defnyddio cwotâu ar gyfer lleiafrifoedd ethnig, ieithyddol neu genedlaethol, gyda rhai polisïau’n dyddio’n ôl i’r 19eg ganrif. Yn fwy diweddar, roedd cwotâu ar gyfer pobl anabl ar waith mewn pump neu chwech o wledydd a chwotâu ieuenctid mewn mwy nag ugain. Roedd yn ddiddorol bod cwotâu ieuenctid wedi’u cyflwyno’n gyfan gwbl bron mewn gwledydd a oedd eisoes wedi cyflwyno cwotâu rhywedd, gan awgrymu y gallai cwotâu rhywedd arwain at gwotâu ar gyfer nodweddion eraill. |

| | |
|---|---|
| | Roedd effaith groestoriadol polisïau cwota cyfunol yn dibynnu ar y modd y cynlluniwyd y cwotâu dan sylw. Dangosodd ymchwil gan Melanie Hughes i gwotâu rhywedd a lleiafrifoedd ethnig fod cwotâu rhywedd, ar eu pennau'u hunain, yn tueddu i fod o fudd i ferched o gefndiroedd mwyafrifol a bod cwotâu lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i fod o fudd i ddynion o gefndiroedd lleiafrifol. Roedd yr effeithiau hyn i'w gweld hefyd mewn gwledydd lle'r oedd y ddau gwota yn cydfodoli, oni bai eu bod wedi'u cynllunio i weithredu ar y cyd / ar yr un lefel (sef *cwotâu tandem*). Dim ond cwotâu tandem oedd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r tebygolrwydd y byddai merched o gefndiroedd lleiafrifol yn cael eu hethol.<br><br>Fodd bynnag, roedd tystiolaeth yn awgrymu y gellir defnyddio cwotâu tandem yn dactegol hyd yn oed er mwyn sicrhau mai'r grwpiau cryfaf fyddai'n parhau i gael eu cynrychioli. Trwy gyflwyno llawer o ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog (ee dim ond merched o gefndiroedd lleiafrifol), gallai pleidiau ddefnyddio'r ymgeiswyr hyn i lenwi cwotâu gwahanol yr un pryd, a, thrwy hynny, cadw cymaint o seddi â phosibl ar gyfer dynion o'r grwpiau cryfaf. Yr arfer gorau a oedd yn dod i'r amlwg i osgoi'r maen tramgwydd hwn oedd defnyddio cwotâu ymgorfforedig (*embedded quotas*) e.e. rhoi polisïau cwotâu ar waith sy'n galw am ddewis yr un nifer o ddynion a merched o grwpiau sydd â nodweddion penodol. O dan bolisi o'r fath, os oedd cwota o 20% ar gyfer pobl anabl, er enghraifft, byddai angen i hanner yr ymgeiswyr fod yn ddynion a hanner yn ferched. Gellid defnyddio cwotâu ymgorfforedig i sicrhau cynrychiolaeth well ar draws yr ystod gyfan o amrywiaeth. |
| **4** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd a'r rhai a oedd yn bresennol i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau craff.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad gan Natasha Ashgar AS, dywedodd Farah Hussain nad oedd yn meddwl y byddai cwotâu yn arwain at wahaniaethu yn erbyn y rhai a gaiff eu hethol drwy ddilyn y drefn hon. Cafodd hi ei hun ei hethol ar ôl ael ei chynnwys ar Restr Fer Merched yn Unig ac, yn ôl ei phrofiad hi, unwaith rydych chi i mewn, rydych chi i mewn" ac nid oedd hi erioed wedi wynebu gwahaniaethu nac wedi cael ei dal yn ôl oherwydd y modd y cafodd ei dewisi yn ymgeisydd.<br><br>Gofynnodd Alison Parken am dystiolaeth am effaith cwotâu deddfwriaethol o'u cymharu â chwotâu o fewn y pleidiau. Dywedodd Mona Lena Krook fod cwotâu deddfwriaethol yn tueddu i fod yn fwy effeithiol oherwydd eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i bob plaid enwebu merched. Pe bai dim ond cwotâu gwirfoddol o fewn y pleidiau yn cael eu defnyddio, byddai'r effaith yn dibynnu ar faint y blaid a'i llwyddiant yn yr etholiad.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pa fesurau eraill y gellid eu defnyddio pe na bai cwotâu ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill yn gyfreithiol ymarferol yng Nghymru, awgrymodd y siaradwyr y gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i |

| | |
|---|---|
| | bleidiau roi sylw dyledus i'r mater a chyhoeddi mwy o ddata ar amrywiaeth eu hymgeiswyr.<br><br>Gofynnodd Sioned Williams AS am effaith cwotâu rhywedd ar bolisïau ar gyfer y gweithle, fel gofal plant. Cyfeiriodd Mona Lena Krook at ymchwil Sarah Childs ar weithleoedd seneddol sy'n sensitif i rywedd.<br><br>Mewn ymateb i ymholiad ar bolisïau cwotâu, dywedodd Farah Hussain ei bod yn bwysig edrych ar y dystiolaeth a pheidio ag ailddyfeisio'r olwyn - roedd y dystiolaeth yn dangos eu bod yn gweithio.<br><br>Tynnodd Rhian Davies sylw at broblemau ynghylch sut roedd pobl yn adnabod eu hunain yn achos cwotâu ar gyfer pobl anabl. Nododd hefyd fod y Ddeddf Cydraddoldeb yn anghymesur o ran anabledd, gan gyfeirio at yr angen i sicrhau nad oes gwahaniaethu yn hytrach na sicrhau cydraddoldeb, a gallai hynny, o bosibl, wneud gwahaniaeth o gymharu â nodweddion gwarchodedig eraill wrth ddatblygu deddfwriaeth cwotâu. |
| **5** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) -** Jackie Jones<br><br>Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod. |
| **6** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Trafododd y Grŵp ddyddiadau ei gyfarfodydd ar gyfer 2022 ynghyd â phynciau amrywiol i'w trafod yn y flwyddyn newydd. Cytunwyd y dylai'r cyfarfodydd nesaf gael eu cynnal bob yn ail fis ac y dylid ymdrin â'r meysydd a ganlyn:<br>• gwaith adfer gwyrdd a gofalgar yn dilyn y pandemig<br>• Cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig a hawliau menywod<br>• Rôl rhywedd mewn diwygiadau cyfansoddiadol<br>• CEDAW a chynorthwyo merched na allant hawlio arian cyhoeddus (cyfarfod ar y cyd â GRhG ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant)<br>• Anghydraddoldebau yng Nghymru yn y dyfodol / trawsnewid cyfiawn |
| 7 | *Cloi* |